



# Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol

Adolygiad Annibynnol

**Dyddiad cyhoeddi:** 11 Tachwedd 2011

**Ymatebion yn erbyn:** 3 Chwefror 2012

## Trosolwg

Mae'r Alwad hon am Dystiolaeth yn gwahodd barn ar sut mae cynnal y system gynllunio yn y dyfodol. O dan arweiniad Grŵp Cynghori Annibynnol, mae'r adolygiad yn ceisio barn ar:

- Yr amcanion polisi allweddol y dylai'r system gynllunio eu cyflawni;
- Y ffordd fwyaf effeithiol o gynnal y system gynllunio, a sut mae ei mesur;
- Y mecanweithiau cyflenwi a'r trefniadau sefydliadol cyfredol;
- Unrhyw dystiolaeth neu enghreifftiau perthnasol eraill.

## Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **3 Chwefror 2012**.  
Gallwch ymateb drwy ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

E-bost: Llenwch y ffurflen ymateb i Alwad am Dystiolaeth a'i hanfon i: [plancallforevidence@wales.gsi.gov.uk](mailto:plancallforevidence@wales.gsi.gov.uk)  
[Nodwch 'Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru' fel y pwnc.]

Post: Llenwch y ffurflen ymateb i Alwad am Dystiolaeth a'i hanfon i'r cyfeiriad a nodir yn yr adran 'Manylion cysylltu'.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill**

Ceir rhagor o wybodaeth berthnasol yn:

Y Rhaglen Lywodraethu

[wales.gov.uk/about/programmeforgovernment/](http://wales.gov.uk/about/programmeforgovernment/)

Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru 2011-2016  
[www.assemblywales.org/bus-assembly-publications-research.htm](http://www.assemblywales.org/bus-assembly-publications-research.htm)

Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru

[wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/planningapproach/](http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/planningapproach/)

Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble? Adroddiad i Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

[wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/Inrdelivery](http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/Inrdelivery)

Rhoi i'r sector cynllunio y sgiliau sydd eu hangen i reoli hyfywedd a'r gallu i gyflawni. Roger Tym a'i Bartneriaid, Economegwyr Cynllunio a Datblygu

[www.tymconsult.com/casestudy\\_viability-and-deliverability\\_62.php](http://www.tymconsult.com/casestudy_viability-and-deliverability_62.php)

Cynllunio ar gyfer Adnewyddu Economaidd Cynaliadwy (2011); Roger Tym a'i Bartneriaid ac Asbri Planning

[wales.gov.uk/topics/planningresearch/publishedresearch/suseconrenewal/](http://wales.gov.uk/topics/planningresearch/publishedresearch/suseconrenewal/)

Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru

[wales.gov.uk/topics/planning/policy/developplans/LDPWales](http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/developplans/LDPWales)

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 4, Mawrth 2011)

[wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw](http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw)

## Manylion Cysylltu

### I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Polisi Cynllunio

Yr Is-adran Gynllunio

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

**e-bost: [welshplanningreview@wales.gsi.gov.uk](mailto:welshplanningreview@wales.gsi.gov.uk)**

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r corff a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn wedyn yn cuddio'r manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyfrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol – Adolygiad Annibynnol

## Galw am Dystiolaeth

### Pa Dystiolaeth? Gan bwy?

Ym mis Hydref 2011, sefydlodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Grŵp Cynghori Annibynnol<sup>1</sup> i ystyried opsiynau ar sut i *ddarparu* system gynllunio yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn esgor ar adroddiad a bydd hwnnw'n rhan o'r dystiolaeth a gyflwynir ar gyfer Bil Cynllunio i Gymru.

Dyweddodd y Prif Weinidog y dylai'r Bil Cynllunio edrych eto ar rolau a chyfrifoldebau<sup>2</sup>, gan gynnwys rhai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ymgygoreion statudol fel Asiantaeth yr Amgylchedd, cynghorau tref a chymuned a'r Arolygiaeth Gynllunio. Bydd yn ymhelaethu ar farn gychwynol Adolygiad Simpson<sup>3</sup> amdanynt.

Ar hyn o bryd, prif gyfryngau darparu'r gwasanaethau cynllunio yng Nghymru ar lefel *genedlaethol* yw trwy gyhoeddi polisi cynllunio Cymreig a sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith trwy graffu ar bolisïau a chynlluniau lleol, galw ceisiadau cynllunio i mewn a phenderfynu ar apelau cynllunio. Mae awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, fel Awdurdodau Cynllunio Lleol, yn darparu polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol trwy baratoi a mabwysiadu cynlluniau datblygu a thrwy benderfynu ar geisiadau cynllunio. (Nid oes lefel gynllunio ranbarthol ar gyfer gwneud cynlluniau neu benderfyniadau yng Nghymru.)

---

<sup>1</sup> Ceir manylion cylch gorchwyl y Grŵp a'i aeodau

<sup>2</sup> Adroddiad ar ddatganiad Rhgalen Ddeddfwriaethu Llywodraeth Cymru, para 3.2

<sup>3</sup> <http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/Inrdelivery/>

**NI** fydd y Grŵp yn ystyried cynnwys Polisi Cynllunio Cymru nac yn ymdrin â chaniatadau nad ydynt yn ymwneud â thir, fel trwyddedau adloniant neu dystysgrifau iechyd a diogelwch. Bydd yn chwilio am *DYSTIOLAETH* i gefnogi ymatebion ar sut i *ddarparu'r system gynllunio'n well* fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer Bil Cynllunio i Gymru.

Gallai aelodau'r Grŵp fod ar gael i ateb cwestiynau am yr adolygiad neu i fynd i drafodaethau trwy wahoddiad. Gallai'r Grŵp gysylltu hefyd â rhai unigolion neu grwpiau i ofyn iddyn nhw ymhelaethu ar dystiolaeth neu farn. Mae'r Grŵp yn gobeithio trefnu trafodaethau 'ford gron' i drafod ac esbonio safbwyntiau gwahanol. Bydd yn gofyn hefyd i arbenigwyr yn y maes am eu barn ac yn edrych y tu hwnt i ffiniau Cymru.

**Beth i'w gyflwyno, ac erbyn pryd**

Mae'r Grŵp yn chwilio am atebion penodol i'r cwestiynau yn y ddogfen 'Galw am Dystiolaeth'. Dylech ystyried pob cwestiwn ac mae cyfle ichi ychwanegu'ch sylwadau ar y diwedd. Rhaid wrth dystiolaeth i gefnogi'ch ymateb a dylech ei hamgáu fel atodiad yn hytrach na'i chynnwys yn yr ateb ei hun. Os bydd unrhyw ymateb yn fwy na 6 thudalen, mae'r Grŵp yn gofyn ichi roi crynodeb o ddim mwy nag 1 dudalen.

Ebostiwch eich cyflwyniadau at [plancallforevidence@wales.gsi.gov.uk](mailto:plancallforevidence@wales.gsi.gov.uk) erbyn 3 Chwefror 2012

Os oes gennych ymholiadau, ebostiwch: [welshplanningreview@wales.gsi.gov.uk](mailto:welshplanningreview@wales.gsi.gov.uk)

# Tuag at Ddeddf Gynllunio i Gymru: Sicrhau System Gynllunio Effeithiol – Adolygiad Annibynnol

## Galw am Dystiolaeth

*Os oes gennych dystiolaeth neu enghreifftiau i gefnogi neu esbonio'ch syniadau yn eich atebion i'r cwestiynau isod, rhowch nhw mewn atodiad a'i labelu'n glir gydag o leiaf eich enw a'r cwestiwn rydych yn ei ateb. Mae croeso ichi greu dolenni at ffynonellau gwybodaeth eraill. Os ydy'ch sylwadau ychwanegol neu unrhyw atodiad yn fwy na 6 thudalen o hyd, rhowch grynodedb o ddim mwy nag 1 dudalen.*

---

## ADRAN A: PRIF AMCANION Y POLISI

**Amlinellir polisiâu cynllunio Llywodraeth Cymru yn Polisi Cynllunio Cymru (PCC). O dan y teitl “Diben y system gynllunio”<sup>4</sup>, dywed:**

*Mae'r system gynllunio yn rheoleiddio datblygu a defnyddio tir er budd y cyhoedd. Dylai gysoni anghenion datblygu a chadwraeth, a sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac amwynder yn y defnydd a wneir o dir, yn ogystal â diogelu adnoddau naturiol a'r amgylchedd hanesyddol. Mae system gynllunio sy'n gweithio'n dda yn sylfaenol bwysig i ddatblygu cynaliadwy*

Aiff y PCC yn ei flaen:

*Rhaid i'r system gynllunio ddarparu ar gyfer cyflenwad digonol a pharhaus o dir, sydd ar gael ac yn addas i'w ddatblygu i ddiwallu anghenion y gymdeithas. Dylai ... fod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn syml o ran ei gweithrediad.*

Mae'r PCC yn ei gwneud yn glir felly mai pwrpas y system gynllunio yw darparu tir ar gyfer ei ddatblygu i ddiwallu anghenion cymdeithas mewn ffordd reoledig gan gyflawni

---

<sup>4</sup> Polisi Cynllunio Cymru (2011); 1.2; pp.10 <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw/>

amcanion nifer o bolisiâu. Un o'r amcanion mwyaf allweddol yw *datblygu cynaliadwy* fel ag y mae deddfwriaeth yr UE, peth deddfwriaeth y DU a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn dylanwadu arno ac yn ei gyfyngu. Yn ôl y PCC, ystyr datblygu cynaliadwy yw<sup>5</sup>:

**4.1.2 Yng Nghymru, ystyr *datblygu cynaliadwy* yw gwella lles *economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol* pobl a chymunedau, sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol mewn ffyrdd sydd:**

- *yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal*
- *yn gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu eu terfynau - gan ddefnyddio dim mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.*

Mae'r PPC yn ymhelaethu ar y diffiniad hwn trwy esbonio egwyddorion datblygu cynaliadwy (Adran 4.3) ac 19 prif amcan y polisi (Adran 4.4).

**Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn a yw amcanion y polisi'n dal i fod yn berthnasol ac yn ddealladwy:**

## **ADRAN A, CWESTIYNAU 1 - 5:**

**1a Ydych chi'n cytuno mai prif bwrpas y system gynllunio yng Nghymru yw darparu tir at ddiben datblygu cynaliadwy?**

**YDW / NAC YDW**

**1b Os mai NAC YDW yw'ch ateb i gwestiwn 1a, rhowch eich rhesymau.**

**2a Os mai YDW yw'ch ateb i gwestiwn 1a, ydy'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ym mharagraff 4.1.2 y PCC yn ddigonol at bwrpas deddfwriaeth?**

**YDY / NAC YDY**

---

<sup>5</sup> Polisi Cynllunio Cymru (2011) <http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/110228ppwchapter4en.pdf>

- 2b** Os mai NAC YDY yw'ch ateb i gwestiwn 2a, esboniwch eich rhesymau. Os medrwch, rhowch ddiffiniad arall.
- 3** A yw'r strwythur cenedlaethol/lleol presennol yn caniatáu i benderfyniadau ar agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd datblygu cynaliadwy gael eu gwneud ar y lefel briodol ar gyfer
- (a) cynlluniau datblygu? YDY / NAC YDY
- (b) ceisiadau cynllunio? YDY / NAC YDY
- 4** Os mai'ch ateb yw NAC YDY i gwestiwn 3a a/neu or 3b, esboniwch eich rhesymau.
- 5** SYLWADAU YCHWANEGOL: Nodwch isod unrhyw sylwadau ychwanegol ar BRIF AMCANION Y POLISI CYNLLUNIO y dylai system gynllunio eu cyflawni a/neu sy'n cael eu hamlinellu yn PCC, paragraff 4.4.

## **ADRAN B: MEINI PRAWF AR GYFER DARPARU EFFEITHIOL**

Mae'r Prif Weinidog wedi dweud y dylai'r system gynllunio ddarparu mewn ffordd tryloyw a hygyrch.<sup>6</sup> Yn y gorffennol, mae pwyslais wedi'i roi ar atebolrwydd democrataidd a phrydlondeb wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Awgrymwyd hefyd bod y graddau y mae'r penderfyniad yn un diogel hefyd yn fesur o'i effeithiolrwydd. Mae Adolygiad Simpson 'Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble?' hefyd yn cynnig meini prawf ar gyfer llywodraethu da.<sup>7</sup>

Fe all fod amrywiaeth o ffyrdd o fesur diffiniadau cytun o effeithiolrwydd. Er enghraifft, o ran prydlondeb, dywed y PCC y dylai 80% o benderfyniadau cynllunio gael eu gwneud o fewn 8 wythnos.<sup>8</sup> Mae'r amser a gymerir i fabwysiadu cynlluniau datblygu hefyd wedi'i nodi.

**Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn sut y dylem ddiffinio a mesur effeithiolrwydd a gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau cynllunio.**

### **ADRAN B, CWESTIYNAU 6 - 10:**

- 6** Gan edrych ar y meini prawf 'tryloywder', 'hygyrchedd' (h.y. pa mor rhwydd yw deall a chael gafael ar yr wybodaeth), 'prydlondeb' ac 'atebolrwydd democrataidd', sgoriwch y **SYSTEM GYNLLUNIO** ar raddfa o 1 (ISEL) i 10 (UCHEL) ar gyfer:
  - (a) Cynlluniau Datblygu**
  - (b) Ceisiadau cynllunio / rheoli datblygiad.**
  
- 7** Rhowch dystiolaeth (yn yr atodiad isod) i gefnogi'ch sgoriau yn 6a) a 6(b) uchod.
  
- 8** Pa feini prawf yn eich barn chi sy'n berthnasol i ddarparu'n effeithlon penderfyniadau cynllunio a chynlluniau datblygu?

<sup>6</sup> Adroddiad y cyfarfod llawn ar ddatganiad rhaglen ddeddfwriaethu Llywodraeth Cymru, para 3.2.

<sup>7</sup> <http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/lnrdelivery/> pp46-51

<sup>8</sup> PCC (2011) Paragraffau 1.3.7 a 1.3.8



- 9** Disgrifiwch sut y gallai'r meini prawf sy'n cael eu hawgrymu yng Nghwestiwn 8 gael eu mesur a sut y gellid casglu gwybodaeth amdanynt.
- 10** **SYLWADAU YCHWANEGOL:** Nodwch isod unrhyw sylwadau pellach am y **MEINI PRAWF** a ddefnyddir i asesu bod y system gynllunio'n cael ei ddarparu'n **EFFEITHIOL**.

## **ADRAN C: ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU WRTH DDARPARU'R SYSTEM CYNLLUNIO**

Yr un rolau a chyfrifoldebau sydd wedi bod ynghlwm â'r system gynllunio fwy na hebers 1947. Erbyn hyn, mae'r gofynion arni yn dipyn trymach, e.e. deddfwriaeth amgylcheddol yr UE, y syniad o ddatblygu cynaliadwy a'r Ddeddf Hawliau Dynol.

Mae Gweinidogion Cymru yn creu polisi cynllunio cenedlaethol, yn gwneud rhai penderfyniadau cynllunio ac yn craffu ar gynlluniau datblygu, ac mae ganddynt y pŵer i fynnu newidiadau neu gymryd drosodd y gwaith o baratoi cynlluniau. Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer bellach i wneud deddfwriaeth gynllunio genedlaethol.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio ar hyn o bryd yn gyfrifol am Gymru a Lloegr, gydag adran ar wahân ar gyfer Cymru. Mae'n delio ar lefel genedlaethol ag apelau cynllunio ac â cheisiadau isadeiledd mawr.<sup>9</sup> Y mae hefyd yn archwilio cynlluniau datblygu.

Mae awdurdodau cynllunio lleol yn cynhyrchu cynlluniau datblygu ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio trwy nifer o fecanweithiau gwahanol, gan gynnwys trwy Bwyllgorau a dirprwyo i swyddogion.

Weithiau, ceir galwad ar i'r lefel genedlaethol ymyrryd llai mewn cynllunio ac i'r gymuned leol gael gwneud penderfyniadau; ar adegau eraill, mae cynghorau lleol yn gofyn am fwy o arweiniad o'r lefel genedlaethol.

Mae rhai wedi gofyn am haenen benderfynu ranbarthol ar gyfer cynlluniau datblygu neu gynigion cynllunio mawr ac mae eraill wedi gofyn am fwy o bwerau i gynghorau cymuned. Mae Adolygiad Simpson<sup>10</sup> ac astudiaeth ddiweddar Roger Tym ar Gynllunio ar gyfer Adfywiad Economaidd Cynaliadwy<sup>11</sup> yn credu y byddai rhinwedd i gyfranogaeth ranbarthol mewn rhai gwasanaethau cynllunio.

**Mae'r cwestiynau canlynol yn gofyn ichi a ydych yn credu bod y gwasanaeth iawn yn cael ei ddarparu ar y lefel iawn.**

---

<sup>9</sup> O Ebrill 2012.

<sup>10</sup> Local, regional, national: What services are best delivered where?  
<http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/lnrdelivery/>

<sup>11</sup> Planning for Sustainable Economic Renewal (2011); Roger Tym & Partners with Asbri Planning;  
<http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/suseconrenewal/>

## **ADRAN C, CWESTIYNAU 11 - 20:**

**11a Fel mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u rhannu ar hyn o bryd, ai dyma'r drefn orau ar gyfer darparu datblygu cynaliadwy i Gymru?**

**IE / NAGE**

**11b Rhowch dystiolaeth i'ch ateb i gwestiwn 11a uchod.**

**12 Ai'r drefn honno yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu, trwy'r system gynllunio,:**

**(a) Cynlluniau datblygu IE / NAGE**

**(b) penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio? IE / NAGE**

**13 Er mwyn ei darparu'n fwy effeithiol, sut byddech chi'n ailrannu'r rolau neu pa lefelau ychwanegol o gyfrifoldeb y byddech chi'n eu creu? Rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch barn.**

**14 Er mwyn darparu'r system yn well, pa newidiadau ydych chi'n credu allai gael eu gwneud i drefniadaeth/strwythurau rheoli awdurdodau cynllunio lleol neu eu cyfrifoldebau penderfynu (er enghraifft dirprwyo penderfyniadau i swyddogion cynllunio yn lle Pwyllgorau wrth ystyried ceisiadau cynllunio)?**

**15a Ydy'r Arolygiaeth Gynllunio gyfun ar gyfer Cymru a Lloegr yn gwneud penderfyniadau apêl ac yn archwilio cynlluniau'n effeithiol? YDY / NAC YDY**

**15b Os mai'ch ateb i gwestiwn 15a yw YDY, ydych chi'n credu y gellid ehangu ei rôl wrth ddarparu'r system gynllunio?**

- 15c Os mai'ch ateb i gwestiwn 15b yw NAC YDW, a oes gennych syniadau ar sut y gellid ei wella – rhowch dystiolaeth.
- 16a Ydych chi'n credu bod y lefel o ddatblygu polisi ac o ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru yn briodol er sicrhau darparu effeithiol?  
YDW / NAC YDW
- 16b Esboniwch eich ateb i gwestiwn 16a a rhowch dystiolaeth.
- 17 Sut gallech chi newid rôl ymgylgoreion statudol iddynt ddarparu'n fwy effeithiol? (*Ystyriwch yn unig rôl ymgylgoreion o fewn y system gynllunio ac nid rôl cyrff unigol gan fod hynny y tu allan i gwmpas gwaith yr Adolygiad hwn.*)
- 18 Pa agweddau ar y gwasanaeth cynllunio a/neu ddeddfwriaeth gynllunio y gellid eu hailystyried neu eu darparu'n well gan asiantaethau eraill er mwyn symleiddio'r rôl gynllunio ac i gynyddu ei ffocws ar ddatblygu cynaliadwy?
- 19 Nodwch beth fyddai ei angen i ddarparu unrhyw rai o'r newidiadau rydych yn eu hawgrymu i rolau a chyfrifoldebau.
- 20 SYLWADAU YCHWANEGOL: Nodwch isod unrhyw sylwadau pellach ynghylch ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU at bwrpas darparu system gynllunio effeithiol.

## **ADRAN D: ENILLION CYFLYM A GWELLIANNAU SYML**

**21** A oes gennych enghreifftiau o rwystrau i ddarparu effeithiol, enghreifftiau o arferion da neu syniadau ar sut i wella'r system gynllunio y gellid eu rhoi ar waith yn gyflym heb ddeddfwriaeth neu newidiadau trefniadol?

**22** Rhestrwch isod unrhyw bobl neu gyrff sydd yn eich barn chi yn meddu ar wybodaeth berthnasol a allai helpu'r Grŵp Cyngori Annibynnol â'i ymchwiliad.

### **23 SYLWADAU YCHWANEGOL PELLACH**

Os oes gennych sylwadau pellach nad ydych wedi cael cyfle i'w rhoi uchod, nodwch nhw yma.